19. Caiff y darlun data hwn ei wella hefyd yn sgil y model asesu rheoleiddiol diwygiedig a ddefnyddir gan y Rheoleiddiwr. Mae hyn yn cynnwys ystyried pa mor effeithiol yw goruchwyliaeth y Bwrdd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o iechyd a diogelwch, gan gynnwys sicrwydd bod systemau a data sylfaenol yn gadarn.
 20. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o waith parhaus Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chyflwr gwael, gan gynnwys lleithder a llwydni, mewn cartrefi cymdeithasol. Pan fydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnal cwyn yn erbyn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, caiff Llywodraeth Cymru ei hysbysu'n ffurfiol gan yr Ombwdsmon a'r landlord. Mae'r hysbysiad hwn yn nodi canfyddiadau'r ymchwiliad, yn amlinellu'r cynllun gweithredu a luniwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, ac yn cadarnhau a dderbyniwyd holl argymhellion yr Ombwdsmon.
 21. Yn dilyn hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o roi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith drwy'r Tîm Rheoleiddio er mwyn sicrhau y caiff camau unioni priodol eu cymryd o fewn yr amserlenni a nodwyd a bod yr argymhellion wedi cael eu hymgorffori'n llawn ac yn effeithiol.
 22. Mae swyddogion yn trafod â'r Ombwdsmon yn rheolaidd ac, er mwyn cryfhau'r gydberthynas hon ymhellach a hwyluso trefniadau rheolaidd i rannu data, mae gwaith cychwynnol yn mynd rhagddo i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Rheoleiddiwr.

Yr effaith ddisgwyliedig i denantiaid a landlordiaid cymdeithasol

23. O ganlyniad i gyflwyno'r rheol newydd hon, bydd tenantiaid yn cael budd o amseroedd ymateb a osodwyd yn genedlaethol, gan roi mwy o hyder iddynt na fydd problemau megis lleithder a llwydni yn cael eu gadael heb eu trin am gyfnodau hir. Ynghyd â'r gofynion data ar lefel uwch drwy'r adroddiad monitro cydymffurfiaeth a'r ffurflenni data chwarterol, bydd hyn yn creu mwy o atebolrwydd a thryloywder i denantiaid.
24. Lle nad oes modd atgyweirio'r perygl yn llawn o fewn cyfnod penodol o amser, bydd tenantiaid yn cael cynllun cryno ysgrifenedig yn:
 - Cadarnhau natur y perygl a nodwyd a ph'un a aseswyd ei fod yn peri niwed uniongyrchol ai peidio.
 - Nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd/a gaiff eu cymryd i wneud yr eiddo yn ddiogel.
 - Nodi manylion y gwaith a gaiff ei wneud i unioni'r perygl.
 - Nodi pryd mae'r gwaith yn debygol o ddechrau a gorffen.
 - Nodi'r trefniadau a wnaed i liniaru unrhyw risgiau i'r tenant yn y cyfamser.
 - Rhoi cyngor ar sut i gysylltu â'r landlord.
25. Wrth bennu a yw perygl yn cyflwyno "risg sylweddol", rhaid ystyried amgylchiadau'r tenant ac i ba raddau y mae'n agored i niwed. O ganlyniad, disgwyliar i denantiaid sydd ag iechyd gwael neu anghenion ychwanegol neu sy'n agored i niwed gael camau gweithredu cyflymach neu â blaenoriaeth uwch.
26. Cymerwyd gofal i adeiladu ar y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol mewn perthynas â diogelu tenantiaid a sicrhau bod tai mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall rhai landlordiaid brofi goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau drwy gam gweithredu a dysgu'r rheol hon, yn enwedig mewn perthynas â'r gofynion adrodd ychwanegol a chamau i graffu mwy ar berfformiad.

Data ar gyflwr gwael a ddelir gan Lywodraeth Cymru

-
27. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu amrywiaeth o setiau data gwahanol sy'n berthnasol i deall pa mor gyffredin yw achosion o gyflwr gwael mewn tai cymdeithasol ac ansawdd y stoc tai cymdeithasol.
28. Mae'r Rheoleiddiwr yn casglu **data** nas dilyswyd bob chwarter ar gyfer pob Awdurdod Lleol sy'n dal stoc a phob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn y categorïau canlynol.
- Nifer yr eiddo ag achos lleithder a llwydni ar agor ar ddiwedd y chwarter, p'un a ydynt wedi'u categorio o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai ai peidio – i nodi cyfanswm yr achosion agored mewn chwarter.
 - Nifer yr achosion protocol cyn gweithredu newydd ar gyfer cyflwr gwael (gan gynnwys llythyrau hysbysu cynnar) a agorwyd yn ystod y chwarter.
 - Nifer yr achosion protocol cyn gweithredu ar gyfer cyflwr gwael a gyflwynwyd i'r Lllys yn ystod y chwarter.
 - Cyfanswm nifer yr honiadau o gyflwr gwael nas ymdriniwyd â nhw erbyn diwedd y chwarter.
29. Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer sicrwydd gyda phob landlord cymdeithasol er mwyn deall polisi ac ymarfer mewn perthynas ag achosion o gyflwr gwael a chynnal ansawdd eu stoc dai. Mae hwn yn rhoi cipolwg ar y data ar landlordiaid cymdeithasol: [Cyflwr a diffyg atgyweirio tai cymdeithasol \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).
30. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar beryglon a nodwyd drwy asesiadau'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai fel rhan o'r cyhoeddiad ar Beryglon tai [Peryglon tai | LLYW.CYMRU](#). Er ei bod yn fwy cyffredin i'r asesiadau hyn gael eu cynnal yn y sector preifat, caiff rhai eu cynnal mewn perthynas â stoc landlordiaid cymdeithasol.
31. Adroddir ar ddata ar ansawdd tai cymdeithasol drwy Safon Ansawdd Tai Cymru [Safon Ansawdd Tai Cymru | LLYW.CYMRU](#). Ar 31 Mawrth 2023, roedd 100% o'r tai cymdeithasol yng Nghymru yn cyrraedd y Safon flaenorol â rhai methiannau derbyniol. Llwyddodd 78% i gydymffurfio'n llawn heb unrhyw fethiannau derbyniol. Disodlwyd y Safon flaenorol gan SATC newydd 2023 ar 1 Ebrill 2024. Bwriedir i'r cyhoeddiad ystadegol cyntaf ar y safon newydd gael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2026, ond bydd yn cymryd sawl blwyddyn cyn y gellir defnyddio'r data i nodi tueddiadau o ran peryglon.
32. Ystyriodd [Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#) 2017-18 bresenoldeb peryglon tai ym mhob deiliadaeth. Bydd Arolwg Tai Cymru 2027-28 yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd tai ledled Cymru, a disgwylir y prif ganlyniadau yn 2028-29, a chanfyddiadau manylach yn 2029-30.
33. Roedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ([MALIC](#)) 2025 hefyd yn cynnwys amcangyfrif o bresenoldeb peryglon categori 1 mewn cartrefi ledled Cymru.

CIH Cymru response to consultation on hazardous disrepair in social housing.



Introduction

Social housing providers in Wales are committed to providing their tenants with a safe, sustainable and affordable place to call home. For many this is written into their mission statements and organisational values. This does not mean that there are never any issues relating to disrepair and response to hazards in every single social housing home in Wales. There are always improvements to be made to systems and the collection of data. The housing sector is committed to this improvement and the continuous development of good practice.

The extent of hazardous disrepair in social housing in Wales.

The social housing sector in Wales provides a home for 222,093 individuals¹. According to the latest Welsh housing conditions survey 7 per cent of social homes in Wales had a category one hazard. This is compared to 20 per cent of owner-occupied homes and 24 per cent of privately rented homes². This seems to suggest that overall, the likelihood of a hazard in a socially rented home is significantly lower than for other tenures. Yet this data has not been refreshed in nearly a decade due to the current absence of a stock condition survey in Wales.

There have been several high-profile disrepair issues in Wales over the last six months but without the data that a Welsh housing condition survey provides it is difficult to quantify the level of hazardous disrepair in social housing pan Wales. Individual social landlords will record this data as part of their internal record process but there is very much a need for the pan Wales data. We welcome the reinstatement of the Welsh housing condition survey in the next 12-18 months as part of understanding the level of hazardous disrepair in Wales. Yet we expect the

¹ Tenure type, 2021, England, Wales and regions of England, all households. [Office for National Statistics – Census 2021.](#)

² Welsh Housing Conditions Survey 2017-18: headline report (updated). <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-housing-conditions-survey-headline-results-april-2017-march-2018-update-570.pdf>



level to be low due to ongoing improvements being made to social homes in Wales as part of WHQS.

How effectively social landlords are currently responding to reports of hazardous disrepair.

Apart from the three high profile cases reported on by the ombudsman, generally social landlords in Wales are responding well to reports of hazardous disrepair. As previously mentioned, social landlords in Wales seek to provide individuals with a home that is of good quality, safe and secure. Whilst we are not naïve to think that this is the case 100 per cent of the time, we are confident that this commitment means that social landlords are doing everything they can to address hazardous disrepair in the homes they own. There are improvements to be made, nothing is perfect, but the sector is committed to improving homes and developing good practice. For many it is the organisation's core purpose and provides the foundation of their mission statement and organisational values.

CIH Cymru as the professional body for housing is committed to working with the housing sector in Wales to celebrate good practice and to ensure everyone in Wales can access a safe, suitable and affordable home.

The Welsh Government's creation of a new rule within the WHQS

In 2022 the Chartered Institute of Housing (CIH) and the National Housing Federation (NHF) set up the Better Social Housing Review (BSHR) to examine issues relating to the quality of social housing in England. This review was carried out over six months by a panel of independent experts with the report being published late 2022.

Following the publication of the BSHR CIH Cymru, along with Community Housing Cymru, wrote to the then Housing Minister Julie James suggesting that we needed a Wales approach to the issue of damp & mould, and wider disrepair, as the landscape was different to that in England.



The outcome of that exchange was that CIH Cymru, in partnership with Welsh Government and CHC, established a sector working group to look at disrepair more widely, specifically at legislation, regulation and current approaches to engagement with tenants on disrepair. This group has concluded that there are opportunities for improvements and development to ensure the best outcomes for tenants are delivered but that this work should relate more widely to hazards rather than specific types of hazards.

A consultation was held by Welsh government on a new rule to be included in the WHQS and whether or not this new rule should cover all 29 hazards set out in the Housing Health and Safety Rating System (HHSRS). The consultation also asked for views on a reasonable timeframe to respond to hazards reported and whether a remedy plan should be provided if the hazard cannot be remedied under normal emergency repair targets. The outcome of this consultation was the addendum to WHQS of a new rule covering hazards in social housing and the timescales to address these hazards, which goes live in April this year.

CIH Cymru wholly welcomes the introduction of the new rule within WHQS. Yet by including 28 of the 29 hazards it is likely to throw up some issues around approaches to implementation that may have unintended consequences for tenants and landlords. CIH Cymru supports the implementation of the new rule, playing a central role in its development, and we are not saying some of the that some hazards should be excluded or included but want to highlight some issues around proportionality in equivalising all hazards as part of the addendum the WHQS.

Some of the category 1 hazards such as noise are influenced by external and structural factors that may be beyond the scope of social landlords to fix. Noise can still impact a tenant even when all mitigating work has been undertaken. Rather it often requires a strategic approach underpinned by antisocial behaviour and neighbourhood management policies.



Another hazard that is becoming an emerging issue as we decarbonise our homes is excess heat. We often hear from our tenant members that their homes are often too hot in summer months because of the insulation added to homes as part of affordable warmth policies. Whilst this can and does pose a hazard to some tenants, a more strategic approach is needed to the thermal comfort of our homes to ensure a balance of affordable warmth and effective cooling.

We do however welcome the decision of Welsh government not to include overcrowding as a WHQS hazard. This will enable landlords to assess overcrowding holistically in the context of cultural choice and to mitigate the ongoing impact of the bedroom tax.

Overall, the addendum to WHQS will help Welsh social housing standards improve and ensure that every social housing tenant in Wales can access a safe, suitable and affordable home.

How the Welsh Government and social landlords are engaging and involving tenants in issues relating to hazardous disrepair.

Tenant engagement should not be related to just one issue. It should form a key part of the social landlord's function and how they develop the services they provide. As such we have addressed the issue of tenant engagement as a whole in responding to this question.

Whilst generally tenant engagement is good across Wales, with some examples of good practice, we still hear from tenants that engagement could improve. It should not matter who your landlord is, there should be the same commitment to tenant engagement. Tenants have also been clear in their conversations with us that engagement does not always happen during business hours and that the views of more tenants need to be considered. Tenants want to be engaged with, but traditional methods do not always work. Consideration of childcare to enable a single parent or carer is key for some tenants whilst others would prefer more



engagement via social media. We also need to consider how we thank tenants for their time as often paid engagement can impact benefit income.

We also need to look at how we can engage with those tenants who do not want to engage proactively with their landlord. How can we ensure that we capture their views during key contact points such as annual gas services.

We need to ensure that we value the role and experience of tenants within our social housing sector learning from others and tenants around how best to engage. Tenants are at the heart of what we do and as such tenants should be the ones to inform us how they want to be engaged with

Conclusion

We all know and understand the impact that a poor-quality home can have on an individual's health and wellbeing. As such social housing providers in Wales are committed to providing individuals with homes that are safe, suitable and secure. The new WHQS rule is a key element of this work. We look forward to continuing to work with social housing providers, Welsh government and tenants to ensure everyone in Wales can access a safe, suitable and affordable home.

Written Evidence Submission

Anglesey Council Housing Services

Inquiry: Social Landlords' Response to Hazardous Disrepair

Submitted to: Local Government and Housing Committee

Date: February 2026

1. Introduction

Anglesey Council Housing Services welcomes the opportunity to contribute evidence to the Committee's inquiry into social landlords' response to hazardous disrepair. We strongly support the Welsh Government's focus on improving systems for identifying, investigating and remedying hazards in social homes.

2. Extent of Hazardous Disrepair and Health Risks in Wales

Evidence from the Public Services Ombudsman for Wales shows nearly 800 complaints relating to disrepair between 2021 and 2024. Health impacts disproportionately affect vulnerable groups.

3. Effectiveness of Current Social Landlord Responses

Findings show inconsistent inspection quality and delays. Comparative evidence from England highlights similar systemic issues.

4. Welsh Government's WHQS Hazard Response Rule (Effective April 2026)

The Rule introduces mandatory investigation and response timescales. It strengthens transparency and aligns with Awaab's Law in England.

5. Proactive Steps Taken by Social Landlords

Proactive stock surveys, strengthened data systems, early interventions, and updated damp and mould policies are being adopted.

6. Tenant Engagement and Involvement

We support person-centred communication, written findings following inspections, and accessible information formats.

7. Conclusion and Recommendations

We support the WHQS Hazard Response Rule and recommend continued guidance, support for digital systems, and strengthened tenant engagement.

Tystiolaeth Ysgrifenedig - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Ymateb Landlordiaid Cymdeithasol i Gyflwr Anniogel Tai

Crynodeb

- Mae tai yn un o flociau adeiladu sylfaenol iechyd. Mae cysylltiad cryf rhwng lleithder, llwydni ac oerfel¹ â chlefyd anadlol (yn cynnwys asthma), salwch cardiofasgwlaidd, ac iechyd meddwl gwael.
- Mae'r niwed hwn yn effeithio'n anghymesur ar blant a theuluoedd sy'n byw mewn tldi, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at anghydraddoldebau iechyd².
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â pheryglon iechyd yn y cartref.
- Byddai ymestyn egwyddorion SATC i'r sector preifat yn sicrhau amddiffyniad cyson ar draws deiliadaethau ac yn lleihau anghydraddoldebau o ran risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thai.
- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cefnogi cydweithio rhwng gwasanaethau tai ac iechyd, ynghyd â defnyddio mwy ar brofiad bywyd a rhannu data cryfach i lywio polisi ac ymarfer.

Cyflwyniad

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Mae'r ymchwiliad yn edrych ar gyflwr anniogel tai cymdeithasol a chamau Llywodraeth Cymru i gryfhau SATC drwy ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ymchwilio i beryglon sydd â risg sylweddol o niwed uniongyrchol cyn pen 24 awr a'u hatgyweirio cyn pen 24 awr arall.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar ansawdd tai o'r blaen, ac rydym yn parhau i gefnogi'r egwyddor bod tai iach yn hanfodol i ddiogelu a gwella iechyd y boblogaeth. Mae ein hymatebion blaenorol wedi pwysleisio'r angen am weithio cydgysylltiedig, monitro, a ffocws ar atal, mewn perthynas â lleithder a llwydni a pheryglon amgylcheddol eraill.

Ansawdd Tai a risgiau iechyd

Mae cyflwr tai yn benderfynydd ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Canfu asesiad yn 2024 fod gan bron i 1 o bob 5 cartref yng Nghymru Berygl Categori 1, sy'n golygu bod y cartref mewn cyflwr sy'n beryglus i iechyd³. Mae gan bob un o'r 29 math hyn o berygl y potensial i effeithio ar iechyd a llesiant tenantiaid. Gall y peryglon hyn fod yn arbennig o niweidiol i blant. Er enghraifft, mae plant sy'n byw mewn cartref gyda llwydni neu leithder mewn mwy o berygl o ddatblygu asthma, alergeddau a chyflyrau anadlol eraill.⁴

Mae gan Gymru rai o'r stoc tai hynaf yn Ewrop⁵ ac mae anheddau hyn yn fwy tebygol o gynnwys peryglon Categori 1⁶. Er enghraifft, mae tai hyn yn fwy tebygol o gynnwys paent plwm a phlymio plwm. Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos lefelau

uchel o blwm yn y gwaed mewn cymunedau mwy difreintiedig, ac mae'n debygol bod llawer o'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn byw mewn tai cymdeithasol⁷. Gall hyd yn oed cyswllt lefel isel â phlwm achosi niwed gydol oes i iechyd, dysgu a chyfleoedd bywyd plant.

Mae tai o ansawdd gwael yn cyfrannu'n sylweddol at glefydau anadlol, salwch cardiofasgwlaidd, anafiadau, iechyd meddwl gwael, a phwysau y gellir ei osgoi ar iechyd a gwasanaethau iechyd⁸. Mae ymchwil profiad bywyd Iechyd Cyhoeddus Cymru (i'w gyhoeddi ar 10 Mawrth 2026) yn dangos bod pobl yng Nghymru yn profi lleithder sydd wedi effeithio ar iechyd eu plant. *"Roedd y tŷ hwn yn llawn llwydni a lleithder pan symudon ni i mewn, ... roedd ar ddillad gwely fy mhlant, ac roedd yn rhaid i mi symud fy nwy ferch hŷn allan o'u hystafell wely."* *"Roedd rhaid i un plentyn gael anadlydd... yn y gaeaf roedd rhaid iddi gymryd anadlydd oherwydd yr oerfel."* (P9) Mae ceisio rheoli'r llwydni hefyd yn effeithio ar eu llesiant: *"Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn dda i'w hiechyd meddwl gorfod symud dodrefn a newid ystafelloedd yn ddi-baid."*

O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae SATC yn rhoi cyfle i symud tuag at ddull ataliol o fynd i'r afael â pheryglon yn y cartref. Drwy nodi ac ymateb i risgiau'n gynnar, yn hytrach nag aros am gwynion neu niwed difrifol, gall systemau tai ac iechyd gydweithio i amddiffyn trigolion cyn i amodau waethygu.

Gall cryfhau monitro iechyd yr amgylchedd ac ymgorffori llwybrau adrodd clir a hygyrch sicrhau bod problemau'n cael eu codi a'u datrys yn gyflym ac yn ddiogel. Mae'r dull hwn yn lleihau pwysau ar wasanaethau iechyd drwy atal pobl rhag gorfod ymweld â'u meddyg teulu yn ddiangen, ac atal derbyniadau i'r ysbty a salwch hirdymor, yn ogystal â hyrwyddo cartrefi iachach a mwy diogel. Mae hefyd yn adlewyrchu'r dewisiadau a glywodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gan y rhai sydd â phrofiad bywyd o dai afiach, sydd eisiau gallu rhannu eu gwybodaeth unwaith a gweld gwasanaethau'n cydweithio, fel bod eu stori'n cael ei chofio, ei pharchu, a'i defnyddio i ddarparu cymorth hwylus a mwy cydgysylltiedig.

Mae'r budd economaidd i gymdeithas o gael gwared ar y peryglon hyn hefyd yn bwysig. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi [amcangyfrif](#) y byddai cael gwared ar y peryglon mwyaf difrifol o dai yng Nghymru, yn arbed £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG mewn costau triniaeth wedi'u hosgoi. Amcangyfrifir bod y gost lawn i gymdeithas o adael pobl yn byw mewn tai gwael yng Nghymru tua £1 biliwn y flwyddyn.⁹

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd newid hinsawdd yn cynyddu'r risgiau o wres, oerfel a llifogydd, gan niweidio ansawdd tai ymhellach a chynyddu niwed i iechyd oni bai bod cartrefi'n cael eu haddasu'n rhagweithiol.

Safon Ansawdd Tai Cymru ac amserlenni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi newidiadau i SATC i wella amodau byw ac o ganlyniad gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r cynigion hyn a'r amserlenni newydd yn gam sylweddol tuag at ymgorffori iechyd mewn polisi tai.

Dylai SATC barhau i fynd i'r afael â pheryglon amgylcheddol fel plwm, lleithder a llwydni, a risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel gorboethi, oerfel a llifogydd, yn enwedig mewn tai hŷn.

Er bod yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol, byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi archwilio cyfleoedd i ymestyn SATC i'r sector rhentu preifat. Canfu'r arolwg diweddaraf o Gyflwr Tai Cymru fod gan y sector rhentu preifat y stoc tai hynaf yn gyffredinol a chyfran uwch o dai o ansawdd gwael (e.e. yn cynnwys lleithder neu beryglon eraill)¹⁰. Byddai tenantiaid y sector rhentu preifat yn elwa ar roi fwy o amddiffyniadau a phŵer i wasanaethau iechyd yr amgylchedd orfodi safonau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi model tai sy'n cynnwys:

Dull cydweithredol

Yn ein cyhoeddiad sydd ar ddod, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2026, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod rhanddeiliaid yn cefnogi cydweithio agosach ar draws gwasanaethau tai, iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol. Ystyrir bod cyfathrebu clir a gweithlu medrus yn hanfodol ar gyfer cyflawniad effeithiol.

Gall dod â thimau gwasanaethau tai, iechyd yr amgylchedd, gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd ynghyd wella'r broses o nodi a mynd i'r afael ag amodau byw peryglus yn sylweddol. Mae hyn eisoes yn amlwg mewn mentrau llwyddiannus ledled Cymru, fel y prosiect [Cymru Gyntes – Cartrefi Iach, Pobl Iach](#) a amlygwyd yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2025 sef [Llunio dyfodol cartrefi iach yng Nghymru sy'n iach i blant a theuluoedd i fyw ynddynt](#).

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae Strategaeth Tai ac Adfywio Cymru¹¹ yn cynnig cyfle gwirioneddol i ymgorffori'r dull cydgysylltiedig hwn, gan droi cydweithio yn welliannau go iawn i gartrefi, iechyd a llesiant pobl.

Ymgysylltu â phrofiad bywyd

Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad blaenorol, mae profiad bywyd ac adborth gan denantiaid yn hanfodol a dylai lywio gwella gwasanaethau. Mae angen ymgorffori profiad bywyd drwy ymgysylltu cynnar ac ystyrlon er mwyn sicrhau bod polisiau'n adlewyrchu'r heriau y mae pobl yn eu profi a'u bod yn ymarferol i'w cyflawni.

I gyflawni hyn, dylid ymgorffori profiad bywyd ar draws dylunio a chyflawni polisiau drwy gyflogi pobl sydd â phrofiad bywyd mewn rolau strategol, paneli cyd-gynhyrchu, ac ymgysylltu hirdymor â theuluoedd. Mae angen i hyn fod yn arfer craidd gyda'r rhwystrau lleiaf posibl i gyfranogiad. Dylid integreiddio profiad bywyd hefyd mewn fframweithiau monitro a gwerthuso i asesu effaith ymyriadau tai ar iechyd a llesiant.

Integreiddio data iechyd a thai

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym hefyd fod data mwy cydgysylltiedig a chyson ar gyflwr tai yn rhoi dealltwriaeth gliriach o'r cysylltiadau rhwng tai ac iechyd, gyda gwybodaeth yn cael ei dwyn ynghyd ar draws awdurdodau lleol, darparwyr tai, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector trwy well rhyngweithredu ac ansawdd data.

Un ffordd y gellid mynd i'r afael â hyn yw drwy Arolygon Tai Cymru rheolaidd a manwl, gyda ffocws cryf ar ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag iechyd. Byddai data arolwg gwell yn galluogi gwell dealltwriaeth o ran:

- cyffredinrwydd a dosbarthiad peryglon,
- anghydraddoldebau rhanbarthol, cymdeithasol-economaidd ac iechyd, a'r
- berthynas rhwng amodau tai a chanlyniadau iechyd.

Byddai diweddarau Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn fwy rheolaidd yn cryfhau llunio polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan y data mwyaf cyfredol.

Casgliad

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried bod cyflwr anniogel tai yn broblem iechyd y cyhoedd y gellir ei hatal. Mae SATC newydd yn gam cadarnhaol ymlaen, a gellir cryfhau ei weithrediad ymhellach trwy ganolbwyntio ar atal, gweithio cydgysylltiedig, ymgysylltu ystyrllon â thenantiaid a rhannu data yn gryfach rhwng tai ac iechyd.

Mae sicrhau cartrefi diogel ac iach yn un o'r ymyriadau mwyaf pwerus sydd ar gael i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau hirdymor i bobl Cymru.

¹ Health Equals. (2025). New data shows more than 1 in 4 of us live in homes that could harm our health. Health Equals. https://healthequals.org.uk/data_insights/homes-that-harm-health/

² Holden, K. A., Lee, A. R., Hawcutt, D. B., & Sinha, I. P. (2023). The impact of poor housing and indoor air quality on respiratory health in children. *Breathe* (Sheffield, Lloegr), 19(2), 230058. <https://doi.org/10.1183/20734735.0058-2023>

³ Gofal a Thrwsio Cymru (2024). *Polisi ac Ymchwil: Cyflwr Tai*.

⁴ Gehrt, Daniel a Hafner, Marco a Christoffersen, Jens. (2021). Impacts of the indoor environment in our homes and schools on child health: A novel analysis using the EU-SILC Database. https://www.researchgate.net/publication/354793221_Impacts_of_the_indoor_environment_in_our_homes_and_schools_on_child_health_A_novel_analysis_using_the_EU-SILC_Database

⁵ Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru (2019). *Adolygiad annibynnol ar ddatgarboneiddio cartrefi yng Nghymru: Adroddiad i Weinidogion Cymru* (Hawlfraint y Goron). Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-ar-ddatgarboneiddio-cartrefi-yng-nghymru-adroddiad>

⁶ Llywodraeth Cymru. (2020). *Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18: Prif ganlyniadau (wedi'u diweddarau) Ebrill 2017 i Fawrth 2018* (Datganiad Ystadegol Cyntaf SFR 10/2020). Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/welsh-housing-conditions-survey-headline-results-april-2017-march-2018-update-570.pdf>

⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru. (dim dyddiad). *Cyswllt â Phlwm*. Iechyd Cyhoeddus Cymru. <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/iechyd-cyhoeddus-amgylcheddol/cyswllt-a-phlwm/>

⁸ Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU. (2024). *Understanding and addressing the health risks of damp and mould in the home*. <https://www.gov.uk/government/publications/damp-and-mould-understanding-and-addressing-the-health-risks-for-rented-housing-providers/understanding-and-addressing-the-health-risks-of-damp-and-mould-in-the-home--2>

⁹ Nicol S, Garrett H, Woodfine L, Watkins G, Woodham A. (2019). *Cost lawn tai gwael yng Nghymru*, Building Research Establishment Ltd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru.

¹⁰ Llywodraeth Cymru. (2018). *Arolwg Cyflwr Tai Cymru (prif ganlyniadau): Ebrill 2017 i Fawrth 2018*. <https://www.llyw.cymru/arolwg-cyflwr-tai-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2017-i-mawrth-2018>

¹¹ Llywodraeth Cymru. (2025). *Crynodeb o Ymatebion: Papur Gwyn ar sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol, gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd*. <https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd>

Eitem 6.2



**Housing, Communities
and Local Government
Committee**

John Griffiths MS
Chair of the Local Government and Housing Committee
Senedd Cymru
By email

4 February 2026

Dear John,

Pre-legislative scrutiny of the draft Commonhold and Leasehold Reform Bill

I am writing to inform your Committee that the Housing, Communities and Local Government Committee has launched our [pre-legislative scrutiny inquiry](#) into the draft Commonhold and Leasehold Reform Bill. The Government has requested that we undertake this inquiry to examine the draft Bill before legislation goes through its formal parliamentary stages.

The draft Bill's provisions will extend and apply to England and Wales, and so I would be particularly interested in any work which your Committee has undertaken regarding leasehold reform in Wales. If your Committee wishes to share your views on the draft Bill in response to our [inquiry Terms of Reference](#), we would be very grateful for a written submission.

In addition to our call for written evidence, we are also conducting an [online survey](#) to seek views on the draft Bill from leaseholders and from freehold homeowners who pay private estate charges (sometimes known as 'fleecehold'). The survey closes on 31 March 2026.

I would be very grateful if you would share the details of our inquiry and the online survey with your Committee members, and if you would consider promoting our online survey to affected homeowners where appropriate.

Best wishes,

Florence Eshalomi MP
Chair, Housing, Communities and Local Government Committee

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HID-PO-067-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

3 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am yr unfed cyfarfod ar ddeg o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a fydd yn cael ei gynnal ar 5 Chwefror 2026. Byddaf yn ymuno arlein.

Disgwylir i'r drafodaeth ganolbwyntio ar Ddiogelwch Etholiadol, Adroddiad Modiwl 2 Ymchwiliad Covid-19 y DU, a materion byw gan gynnwys deddfwriaeth y DU a Chonfensiwn Sewel.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Llywodraeth Leol a Thai.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod yn unol â'r trefniadau arferol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-076-26

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

9 Chwefror 2026

Annwyl Mike,

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu bod unfed cyfarfod ar ddeg y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC), a oedd i fod i gael ei gynnal ar 5 Chwefror 2026, wedi'i ohirio.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi pan fydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 102
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB/PO/90/26

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

SeneddTai@senedd.cymru

19 Chwefror 2026

Annwyl John

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol (IMG) ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod yr IMG ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn rhithwir gan Weinidog Cymunedau Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Gordon Lyons ACD. Hefyd yn bresennol roedd y Gwir Anrhydeddus Steve Reed AS, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a Màiri McAllan ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Dai.

Roedd agenda'r cyfarfod yn canolbwyntio ar bynciau sy'n ymwneud â datblygu a chyflawni strategaethau tai, gan gyfeirio at gynyddu'r cyflenwad ar draws pob deiliadaeth ac adeiladu cymunedau a lleoedd ffyniannus, cynaliadwy.

Trafododd y grŵp yr arferion gorau ar gyfer polisïau tai sy'n seiliedig ar le, yn ogystal â heriau ac atebion i gynyddu'r cyflenwad tai ledled y DU. Cytunodd y grŵp fod cynyddu'r cyflenwad tai ar draws pob deiliadaeth yn hanfodol i adeiladu cymunedau ffyniannus, cynaliadwy. Cytunodd pob llywodraeth i weithio gyda'i gilydd i ddarparu cartrefi i bawb ledled y DU, gyda Gweinidogion yn nodi manteision y berthynas weithio gadarnhaol sydd eisoes yn bodoli rhwng swyddogion ac yn cytuno i'r cydweithredu hwn rhwng swyddogion barhau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Manteisiais hefyd ar y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd cau'r bwlch rhwng budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai a chost wirioneddol rhentu, yn enwedig drwy'r Lwfans Tai Lleol.

Daeth y cyfarfod i ben gyda chadarnhad y byddai'r llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel swyddogion i gytuno ar bwy fyddai'n cadeirio cyfarfod nesaf yr IMG ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Bydd dyddiad addas ac eitemau agenda yn cael eu nodi maes o law.

Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd yn dilyn y cyfarfod, sydd ar gael [yma](#).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jayne Bryant". The signature is written in a cursive, flowing style.

Jayne Bryant AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

23 Chwefror 2026

Annwyl Lywydd

Ar 12 Chwefror 2026, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cynrychiolaeth y Bobl gerbron Tŷr Cyffredin.

Mae ehangder a chymhlethdod y Bil yn sylweddol, ac mae'n cynnwys 81 o gymalau ac 11 o atodlenni sy'n ymdrin ag ystod eang o faterion etholiadol, y mae llawer ohonynt yn dechnegol eu natur. Mae fy swyddogion yn gweithio drwy ddarpariaethau'r Bil, a'n dadansoddiad cychwynnol yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29. Bydd felly yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Er ein bod wedi ymwneud yn gynhyrchiol â Llywodraeth y DU ac wedi cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth cyn i'r Bil gael ei gyhoeddi, mae maint a chymhlethdod y Bil, a'i ddatblygiad parhaus hyd at ei gyflwyno, wedi bod yn her o ran cynnal ein gwaith dadansoddi.

Er y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod cyn gynted â phosibl, oherwydd maint a chymhlethdod y Bil, bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29. Ein nod yw gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn i'r Senedd gael ei diddymu, a hynny o dan y disgwyliad y bydd angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall ar ôl yr etholiad fel y gall y goblygiadau o ran cydsyniad gael eu hystyried gan y Senedd nesaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Children, Young People
and Education Committee**

Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Chris Llewellyn

17 Chwefror 2026

Blaenoriaethu addysg yn y setliad llywodraeth leol terfynol

Annwyl Chris,

Rwy'n ysgrifennu ar ran y Pwyllgor yn dilyn ein sesiwn graffu gyffredinol ddiweddar ar 4 Chwefror gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Yn ystod y sesiwn, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei hymrwymiad i sicrhau cyllid craidd ychwanegol ar gyfer addysg fel rhan o'r setliad llywodraeth leol terfynol – amcan y nododd hi gyntaf yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar 27 Tachwedd 2025¹. Rydym yn croesawu ei chadarnhad bod hyn wedi'i adlewyrchu i raddau ystyrlon yn y gyllideb derfynol, gan arwain at £112.8 miliwn ychwanegol i lywodraeth leol.²

Esboniodd hefyd, yn dilyn trafodaethau ar draws y Llywodraeth, fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol ar 20 Ionawr i danlinellu bod y buddsoddiad ychwanegol hwn yn cydnabod y pwysau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau addysg a gofal cymdeithasol.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu a pha mor bwysig yw sicrhau eu bod yn cael eu hariannu'n ddigonol. Ar adeg pan fo'r sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn hynod heriol, rydym yn cydnabod efallai na fydd yr adnodd ychwanegol a ddarperir drwy'r Grant Cymorth Refeniw yn gallu ymdopi â'r holl bwysau hyn. Fodd

¹ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 27 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 35.

² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 4 Chwefror 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 11.



bynag, rydym yn gweld y setliad terfynol gwell fel ffordd hanfodol o alluogi awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion i'r eithaf.

Drwy gydol proses y gyllideb, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol hyn ar ysgolion. Roedd eich cyflwyniad i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid yn ddatganiad clir am yr heriau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys y bwlch o £137 miliwn ar gyfer 2026-27 a'r pwysau cynyddol sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddifrifoldeb y sefyllfa hon yn ystod ein sesiwn craffu ar y gyllideb ar 27 Tachwedd. Nododd hi fod rhai awdurdodau lleol bellach yn cynnwys ADY ar eu cofrestrau risg corfforaethol.³ Atgyfnerthodd ei thystiolaeth yr angen i barhau i flaenoriaethu gwasanaethau addysg craidd.

Ei barn hi - ac rydym yn rhannu'r farn honno - yw mai'r hyn sydd ei angen fwyaf ar ysgolion yw cyllid craidd sefydlog a digonol i gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r ffaith hon, gan eu bod nhw'n agosach at y gwaith caib a rhaw. Gwyddom fod cyllid craidd ar gyfer ysgolion yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy'r Grant Cymorth Refeniw ac mai awdurdodau lleol sy'n penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r cynnydd mewn cyllid craidd yn gyfle pwysig i barhau i flaenoriaethu addysg. Rydym am weld y cyllid hwn yn cyrraedd gwasanaethau addysg.

Nodwn hefyd fod llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol at awdurdodau lleol yn dweud bod y setliad yn "cynnig cyfle gwerthfawr i awdurdodau lleol ddyrannu adnoddau sylweddol i'w hysgolion, i ganolbwyntio ar bwysau allweddol anghenion dysgu ychwanegol, cludiant i'r ysgol, y gweithlu a llwyth gwaith".

